Cymdeithion **SIÂN SHAKESPEAR** Associates
26 Stryd Fawr +Bethesda + Gwynedd LL57 4AE
07890 613933
info@sianshakespear.co.uk

# Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad Ynni'r Ocar gyda'r bwriad o sefydlu cynllun hydro ar Afon Galedffrwd

Ebrill 2017

## Cefndir

Cafodd argae Coed y Parc ei adeiladu ym 1847 fel rhan o system i gynhyrchu ynni ar gyfer y gweithdai yn Felin Fawr. Mae hynny'n golygu bod ynni dŵr wedi chwarae rhan allweddol yn hanes Coed y Parc ers pan oedd Chwarel y Penrhyn yn ei hanterth. Coetir Mynydd biau'r argae a'r coetir o'i amgylch, gan ofalu amdanynt ar ran y gymuned. Cwmni elusennol preifat, cyfyngedig trwy warant, yw Coetir Mynydd a'i brif ddiben yw gofalu am goetir yr Ocar a'r bioamrywiaeth sydd i'w gael yno. Mae atgyweirio a chynnal a chadw'r argae wedi profi'n gostus dros ben ac nid oes gan Goetir Mynydd ar hyn o bryd ddigon o arian i allu gwneud hyn. Felly mae'n rhaid i'r cwmni godi arian ar frys fel y gellir gwneud gwaith hanfodol. Penderfynodd Coetir Mynydd edrych i mewn i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun hydro modern ar Afon Galedffrwd, oherwydd byddai hyn, o bosib, yn dod ag arian i mewn a hefyd yn cynnig nifer o fanteision eraill. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf maent wedi gwneud sawl peth i baratoi at gynnal astudiaeth o'r posibiliadau, gan arwain at ymholiad cyn ymgeisio am drwydded tynnu dŵr gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac ymholiad cynllunio cychwynnol gyda Chyngor Gwynedd. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad o bwys gan yr un o'r ddau awdurdod hyn ac felly aeth Coetir Mynydd ati i gomisiynu arolygon penodol a chael cyswllt grid gan SPEN. Bellach maent yn gwbl barod i fynd ymlaen i'r cam nesaf sef ymgeisio'n ffurfiol am bob caniatâd a thrwydded angenrheidiol. Ond mae arnynt angen gwybod:

a. a oes cefnogaeth gyffredinol ymhlith pobl Mynydd Llandegai i'r egwyddor o ddatblygu cynllun hydro ar Afon Galedffrwd,

b. a fydd hi'n bosibl ffurfio grŵp ar wahân, gyda gwirfoddolwyr gwahanol, i sicrhau bod y prosiect yn mynd yn ei flaen.

Felly fe wnaethant sicrhau arian gan Gronfa Buddsoddi Cymunedol Mantell Gwynedd i gynnal ymgynghoriad mor llawn â phosibl. Comisiynwyd Siân Shakespear i fod yn hwylusydd annibynnol a gwneud llawer o'r gwaith hwn ar eu rhan.

## Diben yr Ymgynghoriad

- Rhannu gwybodaeth am beth y mae Coetir Mynydd wedi'i ddarganfod drwy eu hymchwil hyd yn hyn
- Edrych i mewn i sut y gallai adeiladu cynllun hydro ar Afon Galedffrwd fod o fudd a pha bryderon sydd yn ei gylch
- Barnu a ddylai cynllun Afon Galedffrwd fynd ymlaen i'r cam nesaf ai peidio
- Ennyn cefnogaeth gwirfoddolwyr, os yw cynllun Ynni'r Ocar am fynd yn ei flaen

**Y Broses Ymgynghori a'r Canlyniadau**
Rhannwyd taflenni i bawb sy'n byw ym Mynydd Llandegai, Coed y Parc a Bryn Eglwys - 277 o dai i gyd - a rhoddwyd hysbysiadau ar dudalennau gweplyfr Coetir Mynydd a Mynydd Llandegai ac o amgylch y pentref yn gwahodd pobl i sesiwn galw heibio, drwy'r prynhawn ar 26 Chwefror neu gyda'r nos ar 8 Mawrth a/neu i gyfarfod gyda'r nos ar 26 Chwefror. Yn y sesiwn galw heibio rhoddwyd croeso i bawb ac fe'u gwahoddwyd i edrych ar yr arddangosfeydd oedd yn egluro'r cynllun ac ar y gwahanol adroddiadau ymchwil. Cafodd pobl gyfle hefyd i fynd ar daith o amgylch y safle er mwyn dysgu mwy am y cynllun hydro arfaethedig. Cyn ymadael, cafodd pawb holiadur; roedd yr holiadur hefyd ar gael ar-lein.

Nifer y rhai a ddaeth i'r sesiynau galw heibio: cyfanswm o 82

Nifer y rhai a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau: 95 gan gynnwys 13 a gwblhawyd gan aelodau o'r clwb ieuenctid ac 1 gan yr arweinydd.

Nifer y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy gyda'r nos: tua 40

Enghreifftiol a dangosol yw'r canlyniadau a gafwyd; y bwriad oedd gweld beth yw barn pobl ond nid cynrychioli barn holl boblogaeth Mynydd Llandegai.
Mae'r map isod yn dangos lleoliad cod post y rhai a gwblhaodd yr holiadur.



## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn y cyfarfod/gweithdy gyda'r nos a hwyluswyd gan Siân Shakespear ond mae hefyd yn cynnwys sylwadau a wnaed gan bobl a gwblhaodd holiaduron ac a bostiodd eu barn ar dudalen gweplyfr Ynni'r Ocar. Fe wnaeth rhai pobl gymryd rhan yn y trafodaethau yn y gweithdy a chwblhau holiaduron yn ogystal, ac felly roedd y rhain wedi cael yr wybodaeth briffio a chlywed barn pobl eraill, ond mynegi eu barn yn annibynnol a wnaeth eraill.

## Y canfyddiadau

### Sesiwn 1 Manteision cynllun hydro

Y peth cyntaf a drafodwyd yn y gweithdy, a'r cwestiwn cyntaf yn yr holiadur, oedd pa fanteision sydd i'w cael o sefydlu cynllun hydro ar Afon Galedffrwd.

Balchder yn y gymuned a pherchnogaeth

Teimlai llawer o'r rhai a atebodd y byddai sefydlu cynllun hydro sy'n eiddo i'r gymuned yn gwneud pobl yn fwy balch o'u bro ac y byddai'n dod â'r bobl yn nes at ei gilydd gan greu mwy o undod. Byddai'n golygu bod adnoddau lleol yn dod yn eiddo i bobl y fro ac yn cael eu rheoli'n lleol ac fe fyddai pobl yn fwy ymwybodol o'r adnoddau naturiol hyn. Byddai'r pentref hefyd yn fwy hunangynhaliol ac mae rhai'n awgrymu y bydd pobl ifanc yn aros yn eu bro, efallai, os bydd y pentref yn cael cyhoeddusrwydd da. Efallai y bydd y cynllun yn creu swyddi, hyd yn oed. Byddai hefyd yn bosibl rhoi sbin cadarnhaol ar y ffaith ei bod yn bwrw glaw mor aml yma (byth yn stopio yn ôl rhai!). Gallai'r pentref deimlo ei fod, yn wahanol i lefydd eraill, yn "troedio'r tir uchel moesol".

Cynllun ynni gwyrdd blaengar

Mae pawb bron a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn credu y byddai'r hydro yn cynhyrchu ynni mewn modd adnewyddadwy a chynaliadwy. O ddatblygu'r cynllun hwn, byddai'r pentref yn cyfrannu i ymdrechion cenedlaethol a byd-eang i leihau allyriadau $CO_2$ a llygredd a byddai'n helpu i leihau ôl troed carbon y pentref. Crybwyllwyd y ffaith y byddai llai o ynni'n cael ei wastraffu wrth deithio pellter mawr o'r ffynhonnell at y defnyddiwr trwy rwydwaith y grid cenedlaethol. Mae rhai hefyd yn teimlo y byddai'n gynllun blaengar ac y gallai arwain y ffordd i greu rhwydwaith o gynlluniau gwyrdd ar gyfer cynhyrchu trydan, a'r rheini'n cyfrannu'n sylweddol i'r grid cenedlaethol. Drwy wneud y gwaith arloesol hwn, gallem ennyn brwdfrydedd ymhlith y cenedlaethau a ddêl ac mewn cymunedau eraill, fel y bydd cynlluniau eraill tebyg yn cael eu sefydlu.

Manteision uniongyrchol i bobl leol

Mae mwyafrif helaeth y rhai a ymatebodd yn bleidiol i'r syniad y dylai pobl leol fanteisio'n uniongyrchol drwy gael y trydan a gynhyrchir gan y cynllun yn rhatach, ac o blaid targedu nifer penodol o gartrefi lleol ar gyfer derbyn y trydan y mae'r hydro'n ei gynhyrchu. Mae rhai hefyd yn credu y gellid cyflenwi trydan yn uniongyrchol i unedau diwydiannol lleol a gweithdai yn Felin Fawr a Choed y Parc. Soniodd rhai hefyd y byddai'r cynllun o fudd i'r ardal oherwydd y byddai gan gontractwyr lleol lai o bellter i deithio i'r safle ac y byddai'n bosibl i fusnesau lleol gael contractau tymor byr.

Gwneud elw

Yn olaf, ond yn sicr nid yn lleiaf, roedd llawer iawn o'r bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn credu y gallai'r arian a ddaw yn sgil cynllun fel hyn fod yn ddefnyddiol iawn. Roedd rhai yn cydnabod y byddai'r arian yn creu incwm defnyddiol ar gyfer Coetir Mynydd, i gyflawni'r holl bethau y mae'n ymdrechu i'w gwneud gan gynnwys ailosod y seilwaith hanesyddol a rheoli'r coetir yn dda. Yn wir, byddai'n bosibl defnyddio'r arian i gynnal a chadw'r argae presennol a hefyd i wneud y pentref yn fwy deniadol, gwneud mwy fel cymuned a gwarchod cynefin coed yr Ocar. Roedd y syniad y byddai modd defnyddio'r arian i gychwyn pob math o brosiectau mwy yn un deniadol. Ymhlith yr awgrymiadau eraill ar gyfer defnyddio unrhyw elw a ddaw drwy'r cynllun, soniwyd am ddatblygu adnoddau addysgol i helpu pobl i ddysgu sut mae ynni'n cael ei gynhyrchu a sut i ddefnyddio llai ohono a dibynnu llai ar garbon. Crybwyllwyd hefyd buddsoddi er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl a gaiff y cynllun ar yr amgylchedd, e.e. gorchuddio pibellau.

Mae'r dyfyniad isod yn nodweddiadol o'r holl sylwadau a wnaed gan bobl wrth iddynt bwyso a mesur manteision cynllun hydro ar Afon Galedffrwd.

> *"Buaswn i wrth fy modd gweld cynllun hydro ar Afon Galedffrwd, rwy'n meddwl mai dyna'r peth amlwg i'w wneud. Byddai hefyd yn golygu parhau â'r defnydd a wnaed o'r afon o'r blaen. Byddai'n ddelfrydol sefydlu cynllun cymunedol ac os bydd yn rhan o gynllun lleol Cyd Ynni byddai hynny i'r dim yn fy marn i."*

## Sesiwn 2 Goresgyn yr anawsterau

Yn ystod y sesiwn hon, bu'r rhai a gymerodd ran yn meddwl pa bryderon neu rwystrau allai ei gwneud yn amhosibl datblygu cynllun hydro llwyddiannus ar Afon Galedffrwd. Wedyn, gyda'i gilydd, buont yn meddwl sut i ddatrys rhai problemau, gan awgrymu atebion.

| Rhwystrau posibl | Atebion posibl |
| --- | --- |
| • Siomi'r gymuned os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen | • Gwneud yn fawr o bob cyfle i lwyddo<br>• Peidio ag addo gormod a chyflawni mwy na'r addewid<br>• Cyfathrebu mwy â'r gymuned<br>• Rheoli newid a disgwyliadau |
| • Straen o ddelio â biwrocratiaeth (cael caniatâd ac yn y blaen) | • Rhannu'r baich a chael cynifer â phosibl o bobl i gefnogi Coetir Mynydd<br>• Cyflogi'r bobl iawn<br>• Siarad â grwpiau eraill sydd wedi gwneud yr un peth a dysgu ganddynt.<br>• Talu i rywun sy'n gwybod sut i'w wneud! |
| • Llai o ddŵr yn yr afon | • Cadw at amodau Trwydded Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| • Gormod o sŵn o'r tyrbinau | • Dewis y tyrbinau tawelaf posibl<br>• Ynysu'r cwt tyrbin fel y bydd llai o sŵn i'w glywed |
| • Y gost – y gwaith o adeiladu'r cwt tyrbin a'r gored yn araf a chostus, gan wneud y costau yn aneffeithiol dros amser.<br>• Methu cael benthyg y cyfalaf angenrheidiol<br>• Baich ariannol efallai os na fydd y cynllun yn gweithio<br>• Sefyllfa gyllidol Prydain | • Paratoi'n ofalus<br>• Codi'r cyfalaf yn lleol drwy gyfranddaliadau cymunedol<br>• Risg allanol ond efallai y byddai hyn yn cymell pobl leol i fuddsoddi |
| • A fydd yr elw yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned?<br>• Nifer fach o bobl yn unig fydd yn cael budd o'r elw<br>• Anghydfod ynghylch sut i wario'r elw<br>• Y buddiannau ddim yn dod i'r pentref. | • Diffinio ardal y gymuned<br>• Sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol a'r rheolau yn dangos tegwch.<br>• Gweithredu mewn ffordd mor dryloyw ag sy'n bosibl<br>• Dysgu gwersi gan gynlluniau hydro cymunedol eraill<br>• Creu consensws ynghylch beth fydd budd i'r gymuned yn ei feddwl<br>• Y gymuned i chwarae rhan weithredol pan fydd yr arian yn cael ei wario |
| • Effaith negyddol ar fioamrywiaeth<br>• Peryglu rhai anifeiliaid gwylltion e.e. ystlumod a dyfrgwn<br>• Effaith andwyol ar goed aeddfed<br>• Difrodi coetir yn y tymor hir. | • Dros dro yn unig y bydd y cynllun yn tarfu ar yr anifeiliaid ac mae'r arolygon manwl a wnaed eisoes yn dangos mai ychydig iawn o effaith y bydd y cynllun yn ei gael.<br>• Gallai arwain at wella'r cynefin<br>• Bydd amseriad y cyfnod adeiladu yn hollbwysig. |
| • Traffig yr adeiladwyr – yn y safle a'r pentref<br>• Creu rhwystrau ar ffyrdd lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. | • Nid yw'r safle'n addas ar gyfer peiriannau mawr<br>• Ni ddisgwylir y bydd angen peiriannau mawr ar gyfer y gwaith<br>• Yr unig adeg y bydd angen cerbydau mawr yw pan fydd y pibellau'n cael eu cludo yno.<br>• Ystyried y goblygiadau o ran cost os danfonir nifer o lwythi llai<br>• Dod â llwythi llai o goncrid i'r safle. |
| • Y gwaith adeiladu yn niweidio'r amgylchedd<br>   ◦ Difrod yn cael ei achosi wrth symud pibellau o fan i fan yn y coed | • Meini prawf yn y tendr<br>• Monitro'r amgylchedd<br>• Goruchwylio<br>• Dewis y contractwr cywir |

| | |
|---|---|
| ◦ Difrod i ddail, yn enwedig ger glannau'r afon. | |
| • A fydd y gwaith adeiladu yn golygu mynd i fyny'r allt ynteu i lawr?<br>• Y ffordd orau o fynd i mewn i'r safle | • Efallai y bydd angen cydweithrediad rhagor o dirfeddianwyr, oddi ar y safle, er mwyn creu mynediad diogel os bydd ffyrdd yn cau |
| • Effaith weledol, yn enwedig croesi llwybr | • Gorchuddio'r pibellau â defnydd hesian - angen ail-orchuddio bob hyn a hyn, efallai.<br>• Claddu rhannau o'r bibell o dan y llwybr |
| • A fydd gwirfoddolwyr lleol yn gallu ymdopi? | • Defnyddio sgiliau penodol sydd gan wirfoddolwyr, ond dim ond y sgiliau hynny, a cheisio rhedeg y rhan fwyaf o'r cynllun yn broffesiynol |
| • I bwy y byddent yn atebol? | • Sefydlu cwmni sy'n cydymffurfio â rheolau a rheoliadau, gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr? |
| • Effaith andwyol ar yr adeiladwaith presennol, e.e. yr argae | • Ni ddylai fod yn broblem<br>• Rhoi manylion yn y contract ac archwilio'r lle yn rheolaidd |
| • Y contractwyr yn 'tacluso' y coetir yn ddianghenraid | • Rhoi manylion yn y contract am beth sydd ei angen ac archwilio'r gwaith yn rheolaidd<br>• Bydd amser yn lliniaru'r effaith |
| • Cael ein disodli<br>◦ Mentrau masnachol mawr<br>◦ Heb fod yn lleol<br>◦ Menter sydd am wneud elw yn cymryd drosodd<br>• Eraill yn neidio ar y wagen | • Meini prawf cymhwyster i'w gosod yn ofalus a manwl<br>• Sefydlu rheolau cwmni budd cymunedol er mwyn cadw rheolaeth<br>• Dysgu gwersi gan gynlluniau bach eraill |
| • Tirfeddianwyr yn gwrthod cydweithredu | • Maent i gyd yn cytuno mewn egwyddor yn 2017 y dylid mynd ymlaen â'r cynllun. Angen Cytundeb Cyfreithiol rhwymol gyda phob tirfeddiannwr. |
| • Cydymffurfio â rheoliadau Iechyd a Diogelwch<br>• Gwarchod stoc yn ystod y gwaith adeiladu? | • Dan ofal y prif gontractwr a ddewisir – dewis y contractwr iawn, sy'n gyfarwydd â'r math hwn o waith – ac ysgrifennu'r hyn sydd ei angen yn y rhaglith i'r gwaith, y dogfennau tendr a'r contract terfynol<br>• Y prif gontractwr fydd yn gyfrifol am bob gwaith a ffensio dros dro<br>• Penodi 'clerc gwaith' effeithlon |

Mae'r dyfyniadau isod yn dangos y math o bethau a ddywedwyd gan y rheini a fynegodd beth pryder. Fodd bynnag, fe gymerwyd pleidlais anffurfiol yn y sesiynau galw heibio (ffa mewn jariau) a'r farn gyffredinol oedd y dylai cynllun hydro Afon Galedffrwd fynd ymlaen i'r cam nesaf (229 o blaid a 15 yn erbyn).

*"Dwi'n sylweddoli y bydd y gwaith adeiladu'n tarfu'n arw ar yr ardal tra bydd y gwaith yn digwydd (mae Lôn Las Ogwen wedi achosi llanast) ond rhywbeth dros dro fydd hynny, gobeithio. Mae gwarchod bywyd gwyllt a harddwch naturiol yn bwysig i mi, a mynediad i'r llwybrau hefyd."*

*"Mae'n anochel bod rhywfaint o risg gyda phob menter newydd. Fy mhrif bryder yw na fydd y cynllun ariannol neu'r agwedd amgylcheddol ddim yn foddhaol am ryw reswm, gan achosi i'r cynllun ddod i ben cyn iddo gynhyrchu digon o ynni."*

Sylwadau pellach

• Ystyried defnyddio'r llyn uchaf sef Llyn Newydd fel rhan o'r cynllun

*"Byddai'n achosi difrod sylweddol – yn ecolegol ac o safbwynt esthetig – i le arbennig, gan fynd yn hollol groes i'r amcanion dywededig Coetir Mynydd."*

## Casgliadau

Mae'r trafodaethau a gofnodwyd yn y gweithdy, a'r hyn a ddywedwyd yn yr holiaduron yn dangos bod mwyafrif y bobl yr ymgynghorwyd â nhw yn cefnogi'n gyffredinol yr egwyddor o fynd ymlaen i'r cam nesaf sef cael pob caniatâd angenrheidiol, yn enwedig caniatâd cynllunio, er mwyn datblygu cynllun hydro ar Afon Galedffrwd. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r pryderon a godwyd ac mae'n hollbwysig cyfathrebu â phawb yn rheolaidd fel y bydd pobl yn gwybod beth sy'n digwydd drwy'r amser. Bydd hynny'n lleddfu unrhyw ofnau. Cafwyd sawl awgrym adeiladol a buddiol ynghylch ffyrdd o liniaru rhai o'r effeithiau anffodus a'r peryglon. Daeth i'r amlwg yn nhrafodaethau'r gweithdy a thrwy'r broses gyfan fod nifer o unigolion yn awyddus i helpu mewn rhyw ffordd a bod gan rai arbenigedd a phrofiad sy'n golygu y gallant gyfrannu mewn ffordd benodol.

Mae 6% o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, a ddaeth i'r sesiynau galw heibio a'r sesiwn gyda'r clwb ieuenctid, yn credu <u>na</u> ddylai Ynni'r Ocar fynd ymlaen i'r camau nesaf. At hynny, derbyniwyd tri gwrthwynebiad cryf a thanbaid.

## Argymhellion

1. Bod Coetir Mynydd yn mynd ati i ffurfio Ynni'r Ocar a rhoi cyfansoddiad iddo, drwy wahodd pawb a fynegodd ddiddordeb mewn gwirfoddoli i gyfarfod er mwyn sefydlu'r cwmni, gan ganiatáu trafodaeth rydd fel y bydd Ynni'r Ocar yn endid mor annibynnol ag sy'n bosibl.

2. Pan gymerir y camau nesaf, dylid rhoi pwyslais mawr ar gyfathrebu'n rheolaidd a rhoi cyfle i bobl y pentref ddweud ym mha ffordd yr hoffent i hynny ddigwydd.

3. Dylid cynnal trafodaethau rheolaidd, agored er mwyn datrys unrhyw broblemau wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Drwy hyn bydd naws wirioneddol gydweithredol yn datblygu.

4. Dylai aelodau Ynni'r Ocar ymweld â chynllun hydro cyfagos Ynni Ogwen a dysgu o'u profiad nhw. Dylid ystyried rhoi sedd ar fwrdd Ynni'r Ocar i rywun o Ynni Ogwen neu sefydlu rhyw gyswllt ffurfiol arall. Dylid ymweld hefyd â chynlluniau hydro eraill sy'n eiddo i'r gymuned fel Padarn/Peris ac Anafon ac yn y blaen.

5. Dylai dau aelod o Coetir Mynydd/Ynni'r Ocar wahodd y ddau wrthwynebydd i gyfarfod safle a thrafodaethau er mwyn egluro'r cefndir a beth oedd canfyddiadau'r gwahanol adroddiadau ymchwil.

6. Dylid rhannu'r adroddiad hwn drwy'r wefan a rhoi gwybod i bobl amdano.

7. Dylid rheoli'r disgwyliadau hyd y mae hynny'n bosibl, yn enwedig gan fod llawer o bobl yn wir yn gobeithio y bydd yn bosibl i gartrefi lleol ac unedau diwydiannol gael trydan rhad.